OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2022 Rhif 882 (Cy. 186)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Ffordd Trefynwy, y Fenni, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerddwyr Dros Dro) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *2 Awst 2022* |
| *Yn dod i rym* | *8 Awst 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd pob cerddwr ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Ffordd Trefynwy, y Fenni, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerddwyr Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Awst 2022.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 8 Awst 2022 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

---

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o'r droetffordd gyferbyn â cherbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd ac o flaen mangre ATS Euromaster sy'n ymestyn o bwynt 50 metr i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Mill Street hyd at bwynt 120 metr i'r gorllewin o ganolbwynt y gyffordd honno yn Ffordd Trefynwy, y Fenni, Sir Fynwy.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 2 Awst 2022

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru